



CYNGOR BRO MORGANNWG

DISGRIFIAD SWYDD

TEITL Y SWYDD	:	Hyfforddwr Achlysurol
RHIF Y SWYDD	:	S-NST-HLT032
ADRAN/CYFARWYDDIAETH	:	Amgylchedd a Thai
ADRAN/IS-ADRAN	:	Gwasanaethau Cymdogaeth – Byw'n Iach a Pherfformiad Iach
LLEOLIAD	:	Safleoedd amrywiol ledled y Fro
GRADD Y SWYDD	:	Gradd D
YN ATEBOL I	:	Y Swyddog Datblygu Chwaraeon Priodol
YN GYFRIFOL AM	:	Ddim yn berthnasol
CYD-GYSYLLTU Â	:	Ysgolion, clybiau chwaraeon lleol
PRIF DDIBEN Y SWYDD	:	Arwain sesiynau hyfforddi, creu amgylchedd proffesiynol, cyfeillgar, llawn hwyl a chroesawgar drwy ddefnyddio'r safonau diogelwch a gofal cwsmer uchaf.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Mae'r disgrifiad swydd yn cyfeirio at brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Swydd. Nid yw o reidrwydd yn rhestru'n fanwl yr holl dasgau y mae angen eu gwneud i gyflawni'r dyletswyddau a'r chyfrifoldebau hyn.

- Arwain y gwaith o ddarparu sesiynau hyfforddi gweithgarwch corfforol mewn ysgolion, clybiau a lleoliadau cymunedol.
- Llunio a dilyn cynlluniau sesiwn hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd yn ddifyr, diogel, blaengar ac addas o ran lefel ar gyfer y gynulleidfa.

- Sicrhau y caiff pawb ei gynnwys, gan gynnwys plant anabl a phobl ifanc pan fo'n briodol ac addasu gweithgareddau pan fo angen.
- Gwerthuso pob sesiwn a rhoi newidiadau ar waith pan fo'n briodol. Pan fo'n briodol, gofyn am adborth drwy dulliau fel holiaduron i blant, athrawon, aelodau clwb ac ati.
- Sicrhau iechyd a diogelwch pawb drwy ddefnyddio dulliau priodol gan gynnwys asesiadau risg. Sicrhau bod offer yn cael archwiliad a'u bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel.
- Mentora pobl ifanc sy'n helpu mewn sesiynau chwaraeon pan fo'n briodol.
- Cynorthwyo i fonitro niferoedd dosbarthiadau drwy lenwi cofrestrau.
- Datblygu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol a chadarnhaol gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys plant, pobl ifanc, athrawon, staff cynorthwyol ysgolion ac aelodau clybiau cymunedol.
- Datblygu niferoedd cymryd rhan plant a phobl ifanc drwy hyrwyddo clybiau cymunedol lleol.
- Mynd i gyrsiau gofynnol gan y Swyddog Datblygu Chwaraeon.
- *Pan fo'n briodol, mynd i gyfarfodydd gyda'r Swyddog Datblygu Chwaraeon er mwyn datblygu a gwerthuso rhaglenni.
- Sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Ariannol, Archebion Sefydlog, Polisiâu a Gweithdrefnau'r Cyngor.
- Rhoi egwyddorion Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor ar waith wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/polisiâu a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor a gofalu'n rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch eraill y gallai eich gweithrediadau/esgeulustod effeithio'n negyddol arnynt.
- Rhoi egwyddorion Polisi Amgylchedd y Cyngor ar waith wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Rhoi gwybod am bryderon o ran diogelu i'r swyddog diogelu priodol ar unwaith.
- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, sy'n cyd-fynd â'r radd ac sy'n unol â natur y swydd yn gyffredinol, fel sy'n rhesymol ofynnol gan y Prif Swyddog o bryd i'w gilydd.

LLOFNOD:
(Cyfarwyddwr/Prif Swyddog)

DYDDIAD:

LLOFNOD:
(Deiliad y Swydd)

DYDDIAD: